

Jwdas a Pedr

Pwy sydd ddim yn gwybod am Jwdas a Pedr, y ddau ddisgybl wnaeth wadu'r Iesu. Jwdas yw'r disgybl wnaeth fradychu'r Iesu a'i werthu am dri deg darn o arian. Pedr yw'r disgybl a wnaeth fynnu nad oedd e'n nabod yr Athro, er ei fod wedi addo y byddai'n rhoi ei fywyd dros yr Iesu. Roedd yr Iesu'n caru'r ddau ohonyn nhw'n fawr iawn. Ond, fe wnaethon nhw ddal i'w fradychu. Ond mewn dwy ffordd wahanol iawn y gwnaethon nhw farw: fe wnaeth Jwdas ddewis marw heb ofyn am faddeuant. Fe wnaeth Pedr benderfynu byw, gan ddweud ei bod yn ddrwg iawn ganddo am yr hyn roedd wedi'i wneud.



“Pwy bynnag sy’n dweud yn agored o flaen pobl eraill ei fod yn credu ynof fi, bydda innau’n dweud yn agored o flaen fy Nhad yn y nefoedd fod y person hwnnw’n perthyn i mi.” Mathew 10:32-33

[Gwers 25]

Jwdas a Pedr

Testun y Beibl: Ioan 6:70-71, Luc 22:1-6, Luc 22:47-48, Mathew 27:3-5 (Jwdas) a Ioan 13:36-38, Luc 22:54-62 (Pedr)

Adnod Allweddol: Mathew 10:32-33

Pwrpas: Bydd y plant yn cael eu hannog i gydnabod yr Iesu ac i beidio bod â chywilydd yn siarad amdano.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

I. Gwers

Cyn gweithio ar y dudalen liwio, soniwch wrth y plant am Jwdas a Pedr, wnaeth wadu'r Iesu.

Jwdas yw'r disgybl a gafodd y cyfrifoldeb gan Iesu o ofalu am yr arian. Ond roedd Jwdas yn un trachwantus. Mae'r Beibl yn dweud mai fe yw'r un wnaeth fradychu'r Iesu â chusan am dri deg darn arian. (Luc 22:1-6; 47, 48). Roedd Iesu'n gwybod y byddai Jwdas yn ei fradychu. (Ioan 6:70-71). Teimlai Jwdas yn ddrwg wedi bradychu'r Iesu a rhoddodd y darnau arian yn ôl i'r offeiriaid. Ond roedd yn rhy hwyr. Roedd yr Iesu "yn eu dwylo" erbyn hyn. Pan sylweddolodd Jwdas fod yr Iesu wedi cael ei gondemnio i farw, teimlai'n edifar iawn a dywedodd, "Dwi wedi pechu;" meddai, "dw i wedi bradychu dyn cwbl ddiuog." Felly dyma Jwdas yn taflu'r arian ar lawr y deml a mynd allan a chrogi ei hun." (Mathew 27:3-5) Dyma ddiwedd Jwdas.

Pedr yw'r disgybl a ddywedodd y byddai'n marw dros Iesu (Ioan 13:37). Dywedodd hefyd mai'r Iesu yw'r Crist, Mab Duw. Ond roedd yr Iesu'n gwybod bod Pedr yn mynd i'w wadu a rhybuddiodd Pedr am hynny (Ioan 13:38). Ond nid oedd Pedr yn deall. Pan aeth yr Iesu at y prif offeiriad, roedd Pedr yn ei ddilyn o bell. Ond, dair gwaith, fe wnaeth pobl ei adnabod fel disgybl i'r Iesu a thair gwaith, fe wadodd Pedr ei fod yn ei adnabod. Yna canodd y ceiliog. Fe wnaeth yr Iesu droi ac edrych ar Pedr a chafodd ei atgoffa o'r hyn yr oedd yr Iesu wedi'i ddweud wrtho ac aeth o'r lle yn crïo a chrïo. (Luc 22:54-62). Fe wnaeth Pedr edifarhau a dweud ei bod yn ddrwg ganddo a maddeuodd yr Iesu iddo. Daeth Pedr yn apostol mawr.

Jwdas a Pedr: Fe wnaeth Jwdas a Pedr wadu'r Iesu yn eu ffordd eu hunain, gan ymateb mewn ffyrdd gwahanol iawn. Nid oedd Jwdas yn deall bod yr Iesu am farw am ei bechodau ef, felly aeth allan a'i grogi ei hun. Roedd Pedr, a oedd yn adnabod yr Iesu, yn credu yn ei faddeuant ac fe gafodd hwnnw. Daeth Pedr yn apostol dewr. Bu farw yn ferthyr wedi iddo orffen ei genhadaeth ar y ddaear.

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod yn uchel:

“Pwy bynnag sy’n dweud yn agored o flaen pobl eraill ei fod yn credu ynof fi, bydda innau’n dweud yn agored o flaen fy Nhad yn y nefoedd fod y person hwnnw’n perthyn i mi.” Mathew 10:32-33

b. Eglurwch yr adnod:

Cydnabod – cyhoeddi, dweud

Gwadu – gwrthod cydnabod eich bod yn adnabod rhywun

Bydd y rhai sy’n dweud wrth bobl am yr Arglwydd Iesu yn hapus yn y nefoedd, oherwydd bydd yr Iesu’n eu cydnabod hwy o flaen ei Dad. Ond bydd yr Iesu’n gwadu o flaen ei Dad y rhai sy’n ei wadu ef.

c. Helpwch y plant i ddysgu’r adnod:

2. Ewch dros y cwestiynau gyda’r plant:

Pwy oedd Jwdas a Pedr?

Beth wnaeth Jwdas a Pedr?

Beth wnaeth Jwdas wedi bradychu’r Iesu?

Beth wnaeth Pedr wedi iddo wadu’r Iesu?

Pwy fu farw’n ferthyr?

III. Diweddsglo

Oes gennych chi gywilydd i siarad am yr Iesu neu a ydych chi’n falch o gael dweud wrth eraill amdano? Os oes cywilydd arnoch chi, yna rydych chi’n ei wadu. Dywedodd yr Iesu y byddai’n gwadu o flaen ei Dad y rhai sy’n ei wadu ef. Os yw’n ddrwg da chi am ei wadu, fel yr oedd Pedr yn teimlo, bydd yr Iesu’n maddau i chi. Os byddwch yn ei gydnabod ef o flaen eraill yn Waredwr, bydd yr Iesu un dydd yn eich cydnabod chi o flaen ei Dad.